

Stephen ydw i ac roeddwn i'n cydgysylltydd yng nghyfrifiad 2011.

Roeddwn i wedi colli fy swydd ychydig flynyddoedd ynghynt ac roeddwn i'n gweithio'n rhan-amser fel gwerthwr hen bethau. Fe wnes i edrych ar lein a dod o hyd i'r hysbyseb am swydd cydgysylltydd y cyfrifiad. Fe wnes i anfon fy nghais a wedyn, rwy'n credu, ar nos lau, fe ges i alwad ffôn yn dweud, oes gennych chi ddiddordeb o hyd?

Fe gawson ni benwythnos o hyfforddiant mewn gwesty yn Reading, lle gwnaethon nhw esbonio'r broses i ni, gwneud ychydig o chwarae rôl, esbonio'r pethau a allai fynd o chwith. Ac fe wnaethon nhw wir esbonio'r broses gyfan, ac fe wnaeth hynny danio ein brwdfrydedd rwy'n credu. Rwy'n credu bod hynny wedi tanio brwdfrydedd pawb oedd yno.

Fel cydgysylltydd, roeddwn i'n gofalu am tua 12 o weithwyr maes oedd yn casglu ffurflenni cyfrifiad heb eu dychwelyd. Roedd rhaid i mi drefnu eu hymweliadau ac roedd gen i lawer o waith TG, ond roeddwn i hefyd yn delio â phob math o bethau eraill oedd yn codi.

Roeddwn i'n ymweld â chartrefi'r henoed. Roeddwn i mewn cysylltiad â barics y Fyddin. Roeddwn i'n mynd â deunydd cyhoedduswydd i lyfrgelloedd, pob math o bethau. Roedd yr amrywiaeth o bethau roedd angen i mi eu gwneud yn dda iawn.

Roedd y cwrs hyfforddi ym mis Ionawr. Roedd y gwaith am dâl, os hoffech chi, yn dechrau ym mis Chwefror ac yn para tan fis Mai, felly roedd yn para rhwng chwech ac wyth wythnos, cyn ac ar ôl y cyfrifiad. Byddwn i'n dweud bod fy amser yn cael ei rannu'n gyfartal rhwng bod yn y maes a gweithio ar y cyfrifiadur, ar yr ochr TG.

Fe wnes i dreulio hanner diwrnod yn gweithio gyda phob un o'r gweithwyr maes, a roddodd brofiad gwych i mi o gwrdd â rhai o'r bobl y byddai angen i ni gwrdd â nhw. Roedd yna ddau beth yn benodol rwy'n gallu eu cofio. Fe es i gyda gweithiwr maes i un fflat ac roedd menyw oedranus iawn yno, eiddil iawn, ac yn amlwg roedd hi mewn llawer o boen. Yn ffodus, roedd ei gweithiwr gofal yno gyda hi. Fe wnaethon ni'r hyn roedd angen i ni ei wneud, sef casglu ffurflen y cyfrifiad. I daro nodyn hwyliog ar y ffordd allan, fe ddywedais i wel, diolch yn fawr iawn, ac fe fentra' i ddweud, y gwelwn ni chi eto mewn 10 mlynedd. Fe edrychodd hi arna i a'i llygad yn pefrio, ac fe ddywedodd hi, fy machgen i, gobeithio wir fydd dim rhaid i chi fynd i'r fath drafferth o'm hachos i.

Rwy'n credu y gall pobl o unrhyw oedran weithio ar y cyfrifiad, p'un a oes ganddyn nhw ddiddordeb mewn hanes lleol, neu ddiddordeb mewn gwneud swydd y gallan nhw ei rhoi ar eu CV fel rhywbeth maen nhw wedi'i wneud. Y peth pwysig yw bod yn frwdfrydig drosto. Os gwnewch chi fynd amdani ac achub ar y cyfle, fe gewch chi lawer allan ohono.